# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 13 Mehefin 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

# Hybrid

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15-09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus

(09.30-13.20)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

### 2.1 Cynllun Ffermio Cynaliadwy

(Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Gwyn Jones, Prif Weithredwr, y Fforwm Ewropeaidd ar Gadwraeth Natur a Bugeilyddiaeth - 21 Mai 2024

### 2.2 Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforio Da Byw) 2024

(Tudalennau 2 - 3)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – 21 Mai 2024

**2.3 Rheoliadau Deddf Ifori (Ystyr "Ifori" a Diwygiadau Amrywiol) 2024**

(Tudalennau 4 - 5)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – 22 Mai 2024

**2.4 Tata Steel UK**

(Tudalennau 6 - 8)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg – 24 Mai 2024

**2.5 Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru: Ymateb i gyflwyniad Mr Andrew Ling**

(Tudalennau 9 - 11)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Fanc Datblygu Cymru – 29 Mai 2024 [Saesneg yn unig]

**2.6 Dyfodol Dur yng Nghymru**

(Tudalennau 12 - 13)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Celsa Steel UK – 31 Mai 2024

**2.7 Ymchwiliad i'r Economi Werdd: Cwestiynau dilynol o gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mai 2024**

(Tudalennau 14 - 18)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Nesta – 31 Mai 2024

Llythyr gan y Cadeirydd at Fanc Seilwaith y DU – 31 Mai 2024

Llythyr gan y Fanc Seilwaith y Du at Gadeirydd – 6 Mai 2024 [Saesneg yn unig]

**2.8 Hybu Cig Cymru**

(Tudalen 19)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – 3 Mehefin 2024

## 3 Ymchwiliad i'r Economi Werdd – Panel 7 – Astudiaeth Achos 2 – Sir Benfro

(09.30–10.30)

David Jones, Rheolwr Rhanddeiliaid, Blue Gem Wind

Wendy Weber, Pennaeth yr Amgylchedd Adeiledig yng Ngholeg Sir Benfro

## Egwyl

(10.30–10.40)

## 4 Ymchwiliad i'r Economi Werdd – Panel 8 – Undebau Llafur

(10.40–11.25) (Tudalennau 20 – 31)

Peter Hughes, Ysgrifennydd Rhanbarthol Unite Cymru, Undeb Unite

Jane Lancastle, Ysgrifennydd Cynorthwyol, Prospect Cymru

Nisreen Mansour, Swyddog Polisi, TUC Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

## Egwyl

(11.25-11.45)

## 5 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(11.45-12.30) (Tudalennau 32 - 63)

Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur tystiolaeth - Llywodraeth Cymru

Briff Ymchwil

## Egwyl

(12.30-12.35)

## 6 Ymchwiliad: Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy

(12.35-13.20)

Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Claire Bennett, Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru

Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.20)

## Cyfarfod preifat

(13.20–14.10)

## 8 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

(13.20–13.30)

## 9 Banc Datblygu Cymru: Trafod y materion allweddol

(13.30–13.50) (Tudalennau 64 – 74)

**Dogfennau atodol:**

Papur ar y materion allweddol [Saesneg yn unig]

## 10 Gohebiaeth ar Gylchoedd Gwaith Pwyllgorau

(14.00–14.10) (Tudalennau 75 – 77)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes at Gadeiryddion Pwyllgorau – 22 Mai 2024

Eitem 2.1

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Gwyn Jones
Prif Weithredwr
Fforwm Ewropeaidd ar Gadwraeth Natur a Bugeilyddiaeth

21 Mai 2024

Annwyl Gwyn

**Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

Ysgrifennaf atoch ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i Gynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Gwnaethom gynnal ymchwiliad undydd i'r pwnc hwn ddydd Iau 9 Mai, pan glywsom dystiolaeth lafar gan undebau ffermio, sefydliadau amgylcheddol, Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU a'r Athro Janet Dwyer. Soniodd yr Athro Dwyer am eich arbenigedd yn y maes, a chytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am eich sylwadau ar y cynllun ffermio cynaliadwy.

Roedd y meysydd bras a drafodwyd gennym yn ystod ein hymchwiliad undydd yn cynnwys ymgysylltu, methodoleg talu, gweithredoedd sylfaenol, haenau dewisol a chydweithredol, gorchudd coed, ymrwymiadau o ran sero net a bioamrywiaeth, ffermydd bach a garddwriaeth, ffermio organig, oedi cyn cyflwyno'r weithdrefn newydd, newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant, masnach a gwersi a ddysgwyd. Byddai'r Pwyllgor yn awyddus iawn i glywed eich barn ar unrhyw un o'r meysydd hyn, ac ar unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol yn eich barn chi.

Byddai'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar am unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar yr ymchwiliad hwn.

Cofion cynnes,

Paul Davies MS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/5128/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Paul.davies@senedd.wales

21 Mai 2024

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 ("y Rheoliadau").

Gwneir y Rheoliadau o dan Gymal 2(1) a Chymal 3(3) Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) ("y Ddeddf"), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mai.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau i wahardd allforio gwartheg ac anifeiliaid buchol eraill, defaid, geifr, moch neu faedd gwyllt, a cheffylau neu anifeiliaid ceffylaidd eraill ("da byw perthnasol") i'w lladd, gan gynnwys pesgi i'w lladd wedyn. Pan fo allforion yn anfon neu geisio anfon o Brydain Fawr i unrhyw le y tu allan i Ynysoedd Prydain neu gludiant neu ymgais i gludo, neu drefnu neu geisio trefnu cludo da byw perthnasol o Brydain Fawr neu drwy Brydain Fawr i unrhyw le y tu allan i Ynysoedd Prydain.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys y broses Cydsyniad Deddfwriaethol a amlinellir yn Rheol Sefydlog 29. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM), ar gyfer y darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan Lesley Griffiths AS, cyn Weinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ar 19 Rhagfyr. Argymhellodd yr LCM fod y Senedd yn cydsynio i'r Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) ("y Bil"). Gosododd y Gweinidog Materion Gwledig Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol i gynnig y dylai y Senedd gytuno fod darpariaethau'r Bil, i'r graddau y maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gael eu hystyried gan Senedd y DU. Cafwyd dadl lawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 12 Mawrth. Cytunwyd ar y cynnig.

Mae'r Rheoliadau'n sefydlu pwerau gorfodi, troseddau, a chosbau sy'n ymwneud â'r gwaharddiad ar allforio da byw perthnasol i'w lladd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwy'n rhoi fy nghaniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, ac ar gyfer cyfathrebu cydlynol a chydgysylltu'n ganolog â rhanddeiliaid. Gall teithiau cludo da byw ddechrau a theithio trwy wahanol wledydd Prydain Fawr i gyrraedd cyrchfan. Gallai rheoliadau ar wahân, neu unrhyw wahaniaeth wrth i'r rheoliadau ddod i rym, ledled Prydain Fawr arwain at gymhlethdod, anghysonderau a baich gweinyddol ar gyfer asiantaethau diwydiant a gorfodi.

Mae gan swyddogion Llywodraeth Cymru berthynas waith dda gyda'u cymheiriaid yn Defra a byddant yn parhau i weithio gyda hwy a Llywodraeth yr Alban i wella diogelwch lles anifeiliaid yn ystod cludiant, gan gynnal cysylltiadau rhynglywodraethol cadarnhaol ac adeiladol.

Dyddiad gosod disgwyliedig y Rheoliadau gerbron Senedd y DU, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, yw 5 Mehefin.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Huw Irranca-Davies AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: MA/HIDCC/5236/24

Paul Davies, AS
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Mai 2024

Annwyl Paul,

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Deddf Ifori (Ystyr "Ifori" a Diwygiadau Amrywiol) 2024.

Gwnaeth y cyn-Brif Weinidog Mark Drakeford AS yr ymrwymiad y byddai Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y pwyllgorau perthnasol i'w hysbysu am fwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Lle bo'n bosibl, dylid gwneud hyn cyn rhoi caniatâd i ganiatáu amser i'r Senedd fynegi barn. Ar yr achlysur hwn, oherwydd camgymeriad gweinyddol, ni fu'n bosibl darparu'r llythyr cyn cydsynio a chaniatáu yr amser hwnnw i'r Senedd..

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2(5), 13, 37(2) a 39(1) o Ddeddf Ifori 2018 ("y Ddeddf"), a pharagraff 14(1) o Atodlen 1 iddi.

Diben y Rheoliadau yw diwygio'r Ddeddf, i estyn y gwaharddiad yn erbyn delio mewn ifori eliffantod i gynnwys ifori o'r rhywogaethau canlynol hefyd:

- hipopotamws cyffredin (hippopotamus amphibius);
- morfil danheddog (orcinus orca);
- morfil ungorn (monodon monoceros); a
- morfil pensgwar (physeter macrocephalus).

Mae'n cynnwys cyfnod gras 28 diwrnod i brynwyr, gwerthwyr a llogwyr sydd wedi ymrwymo i gontract nad yw eto wedi'i gwblhau ar yr adeg y daw'r rheoliadau i rym.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Atodlen 1 (Sefydliadau Penodedig) i Reoliadau Gwaharddiadau Ifori (Esemptiadau) (Proses a Gweithdrefn) 2022 i gywiro enwau rhai o'r sefydliadau a ragnodir o dan y Ddeddf. Mae Sefydliadau Penodedig yn rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar geisiadau am dystysgrifau esemptio.

Mae hefyd yn diwygio Rheoliadau Gwahardd Ifori (Sancsiynau Sifil) 2022 i nodi y bydd y dull a dyddiad cyflwyno rhybuddion yn ymwneud a gorfodi yn dod drwy'r post yn ystod y broses ddosbarthu arferol neu'n electronig ar y diwrnod yr anfonir y cyfathrebiad electronig.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor hwn mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Bu'r DU yn defnyddio dull gweithredu unffurf o ran y polisi hwn ers blynyddoedd lawer, ac mae aliniad parhaus i sicrhau dull cyson o ddiffinio ifori ("ivory"), a rheoli achosion gorfodi pan fo ifori yn cael ei fewnforio, yn hanfodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddir i alinio ar draws Prydain Fawr ar faterion ffiniau a masnach ac mae'n sicrhau cysondeb i fasnachwyr a swyddogion gorfodi drwy osgoi unrhyw wahaniaethau anfwriadol.

Mae'r Rheoliadau'n anfon neges glir nad ydym yn ystyried gweithgareddau masnachol sy'n cynnwys ifori a allai hybu potsio i fod yn dderbyniol. Er mwyn i'r gwaharddiad gael ei gyflwyno ar draws y DU ar yr un pryd, mae'n synhwyrol i Gymru gael ei chynnwys yn yr Offeryn Statudol hwn ar gyfer y DU.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ddoe, 21 Mai 2024, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Disgwylir y bydd y rhain yn dod i rym ar 1 Medi 2024. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig i ddiweddaru'r Senedd, sydd ar gael yma.

Rwyf wedi ysgrifennu hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi,
Ynni a'r Gymraeg

24 Mai 2024

Annwyl Jeremy,

**Tata Steel UK**

Yn ein cyfarfod Pwyllgor ar 9 Mai ynghylch ein heconomi werdd, cefais fy synnu o glywed gan ddarparwyr sgiliau fod llawer o weithwyr Tata yn gweithio â thrwyddedau sydd ond yn ddilys ar eiddo Tata, er enghraifft, trwydded fewnol Tata o ran gwaith fforch godi nad yw'n cael ei chydnabod gan gyflogwyr allanol. Ystyr hyn yw, er y gall rhywun fod yn yrrwr fforch godi medrus gyda degawdau o brofiad na allant gael swydd yn gwneud y gwaith hwn yn rhywle arall oni bai eu bod yn uwchraddio i dystysgrif gan gorff achredu cymeradwy yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nodaf hefyd fod hyfforddiant gwaith fforch godi yn cael ei grybwyll yn benodol fel rhywbeth a ddarperir fel rhan o gymorth sgiliau Llywodraeth Cymru i staff Tata yn yr adolygiad yn 2019.

Dywedodd ColegauCymru wrthym eu bod yn gweithio ar fapio'r sgiliau a enillwyd yn Tata ar draws i gymwysterau a gydnabyddir yn eang, fel y gall gweithwyr sydd mewn perygl o gael eu diswyddo ddefnyddio eu sgiliau gyda chyflogwyr eraill. Er fy mod yn falch o glywed bod gweithwyr yn cael cefnogaeth, mae'r sefyllfa hon ymhell o fod yn ddelfrydol. Disgwyliaf y bydd y broses hon yn rhwystredig i weithwyr sy'n gorfod cael ardystiad newydd ar gyfer sgil y maent eisoes yn hyfedr ynddo. Rwyf hefyd yn pryderu y gallai hyn olygu bod y pwrs cyhoeddus, yn ei hanfod, yn talu am yr aneffeithlonrwydd hwn, ac yn gorfod ariannu dau gymhwyster sydd bron yn union yr un fath yn ôl pob tebyg ar gyfer y gweithwyr hyn.

Fel rhan o'u tystiolaeth ar 9 Mai dywedodd ColegauCymru wrthym hefyd nad yw cyfathrebu [â gweithlu Tata] yn wych. Ni allwn ei wneud ar ein pen ein hunain. Ac nid yw hynny'n pwyntio bys at y

sector Addysg Bellach nac at Lywodraeth Cymru; mae'n rhaid iddo fod yn beth cyfunol. Siaradais â dros 100 o weithwyr Tata yr wythnos diwethaf, pan gynhaliom y digwyddiad gyrfaoedd cyntaf, a oedd â nifer o ddarparwyr hyfforddiant yn bresennol. Byddwn i'n dweud nad oedd gan bron bob un ohonynt hyd yn oed syniad beth oedd y Cyfrif Dysgu Personol [PLA], ac roedden nhw i gyd yn dod atom ac yn dweud, 'A ydyn ni'n gymwys i gael unrhyw help?' Mae cymaint o help ar gael, ond dydyn nhw ddim yn gwybod hynny. Aethant ymlaen i ddweud bod angen rhagor o gydweithio, a bod pawb sy'n cymryd rhan yn rhannu'r bai am hyn gan mai *"We're all to blame, because we're the ones delivering the training, but sometimes we can't get past those gates, we can't get there"*. Fe ddywedon nhw fod angen i bobl roi'r gorau i fod mor amddiffynnol, yn eu barn hwy, a gadael i bobl ddod i mewn i gyfathrebu ynghylch yr hyn sydd ar gael i bobl, oherwydd nid yw pobl yn ymwybodol ohonynt.

Nodaf yn ein sesiwn ar 7 Chwefror pan ddywedodd eich rhagflaenydd wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn hapus i barhau i gefnogi a buddsoddi yn sgiliau'r gweithlu ar gyfer cyfnod pontio a allai ddigwydd, ac, os oes pobl sy'n symud i sectorau gwahanol, yna mae rhannau eraill o'r economi sy'n tyfu a fyddai eisiau rhai o'r gweithwyr hynny, ac mae'r her felly, yn ymwneud â lefelau cyflog cymharol.

Mae cymorth sgiliau parhaus ar gyfer ailhyfforddi'r rhai sydd wedi colli eu swyddi ac i gefnogi gweithwyr a fydd yn parhau i gael eu cyflogi yn y gweithfeydd gyda'r sgiliau newydd y bydd eu hangen arnynt yn hanfodol. Mae'n bwysig bod unrhyw gymorth sgiliau a ddarperir gan y sector cyhoeddus yn cael ei wneud ar y cyd, fodd bynnag, a'i fod yn drosglwyddadwy, er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n cael y gefnogaeth yn gallu dewis yn rhydd ble i ddefnyddio eu sgiliau, ac er mwyn sicrhau nad yw'r sefyllfa hon yn codi eto.

A fyddech cystal â rhoi gwybod eich barn ar y mater, gan gynnwys rhoi sylw i'r pwyntiau a ganlyn:

- Sut y mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau bod gweithwyr Tata sydd mewn perygl o gael eu diswyddo yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael?
- A oes unrhyw heriau o ran sicrhau mynediad at y gweithlu i dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael iddynt?
- A yw'r cymorth sgiliau ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o gael eu diswyddo yn cael ei ddarparu mewn ffordd gydweithredol, ac os nad yw, sut y gellir gwella hyn?
- A oedd unrhyw ofynion ynghlwm wrth gyllid sgiliau Llywodraeth Cymru, er enghraifft y dylai unrhyw ardystiad ar gyfer cyrsiau gael ei gydnabod yn eang y tu allan i Tata?

- A fydd unrhyw ofynion ynghlwm ag ariannu sgiliau yn y dyfodol, ar gyfer Tata ac yn ehangach, a bod yn rhaid i ardystiad gael ei gydnabod yn eang – ac nid yn ddefnyddiadwy yn fewnol yn unig?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb ystyriol ar y materion brys hyn.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Paul Davies MS
Chair, Economy, Trade and Rural Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

*Via email to: SeneddEconomy@senedd.wales*

29th May 2024

Dear Mr. Davies,

I am writing in response to the submission to the committee from Mr Andrew Ling who was until June 2018, the CEO of Perpetual V2G Systems Ltd.

The letter makes claims about the role of Finance Wales as an investor in the business to which I would like to respond in order to correct the public record.

Mr Ling contacted the Development Bank of Wales in February this year to discuss the events leading up to, and subsequent to his dismissal by the board of Perpetual V2G Systems and prior to his planned legal action. He met with two of our investment directors and at that meeting also alluded to other unnamed companies who it was claimed, felt unable to raise their issues.

The Development Bank responded within the agreed timescales and in that response, expressed concern at the suggestion that any company felt unable to speak with us directly. In response, Mr Ling stated that he was aware that the directors of the other businesses had already been in touch. We also sought clarification on the specifics of his concerns relating to the Development Bank's actions.

In March, a formal complaint was submitted to our Chair, and a letter to you as Chair of this Senedd committee, both alleging that Finance Wales appointed advisors and non-executive directors to the business and that these individuals subsequently removed Mr Ling from the business resulting in his financial loss.

To properly and fairly address the claims made by Mr Ling, the Development Bank Board appointed a director not directly involved in investment activity to undertake an investigation

**Development Bank of Wales Plc**
Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at www.developmentbank.wales



Development Bank of Wales Plc - Registered in England and Wales under number 4055414 at Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL.

into the complaint in accordance with The Development Bank's complaints process. That director met with Mr Ling. The process has now concluded, and the complaint was not upheld. Our records show that there was no requirement in the investment agreement with Finance Wales, for the company to appoint an advisor. Finance Wales exercised a right to attend board meetings as a shareholder observer but did not take up its right to appoint an investor director.

Finance Wales first invested in the business in March 2016. At that point, the business already had in place an established relationship working with an advisor which was in place by early 2015. This advisor subsequently introduced an angel investor who invested in February 2015.

The decision to dismiss Mr Ling from the company was taken by the company's board as a result of a finding of gross misconduct taken following an investigation, a disciplinary hearing and an appeal process. As part of this decision, Mr Ling was classed as a "bad leaver" pursuant to the company's articles which resulted in the redistribution of his shares. In our experience, the inclusion of such a clause is standard practice where a shareholder is also an employee of a business. To the best of our knowledge, Mr Ling did not exercise his right to access an employment tribunal which would have scrutinised the dismissal process and the reasons for dismissal, in a public forum.

Neither do we recognise the allegation that a second battery storage business was established based on the IP of Perpetual. The second business to which Mr Ling refers was a reseller of portable battery solutions purchased from a Chinese entity.

In responding to these allegations, we are separating the events which led to Mr Ling's dismissal and the criminal charges brought by the Crown Prosecution Service. The Development Bank was not involved in the trial and is not able to comment on this.

We are also drawing a distinction between the outcome of a commercial negotiation between third parties and a complaint about the Development Bank's own decision making.

As we stated in our evidence to the committee, the Development Bank has a comprehensive complaints procedure and seeks to deal with all complaints openly and fairly. Unsubstantiated allegations have been made that there are organisations that are too scared to make a complaint for fear of reprisal or blacklisting. As they stand, these allegations are unhelpful and – in the absence of any substantiating information - we are unable to establish their veracity.

**Development Bank of Wales Plc**
Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales

Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at www.developmentbank.wales




Development Bank of Wales Plc - Registered in England and Wales under number 4055414 at Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL.

To the extent that the Committee is made aware of anyone who has expressed a view that they felt unable to complain, we would be happy to receive this information, either to the Chief Executive or the Chair. If they wish the matter to be confidential, we have also revised our complaints procedure to provide direct access to the Development Bank's General Counsel, Liz Hitchings.

We recognise the extremely challenging time faced by Mr Ling over the last four years, however these matters were between Mr Ling and the company's board. The Development Bank of Wales appointed neither advisors nor directors to the board of Perpetual V2G Systems. Our involvement was only ever as a lender and minority shareholder.

Yours sincerely



**Giles Thorley**
**Chief Executive**

**Development Bank of Wales Plc**
Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL
info@developmentbank.wales | developmentbank.wales

Development Bank of Wales Plc is the holding company of a Group that trades as Development Bank of Wales. The Group is made up of a number of subsidiaries which are registered with names including the initials DBW. Development Bank of Wales Plc is a development finance company wholly owned by the Welsh Ministers and it is neither authorised nor regulated by the Prudential Regulation Authority (PRA) or the Financial Conduct Authority (FCA). The Development Bank of Wales has three subsidiaries which are authorised and regulated by the FCA. Please note that neither the Development Bank of Wales Plc nor any of its subsidiaries are banking institutions or operate as such. This means that none of the group entities are able to accept deposits from the public. A complete legal structure chart for Development Bank of Wales Plc can be found at www.developmentbank.wales

Development Bank of Wales Plc - Registered in England and Wales under number 4055414 at Unit J, Yale Business Village, Ellice Way, Wrexham LL13 7YL.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Carles Rovira
Prif Weithredwr
Celsa Steel UK

31 Mai 2024

Annwyl Carles

**Dyfodol Dur yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor yn gwneud rhywfaint o waith ymchwilio i ddyfodol Dur Cymru. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, edrych ar gynigion Tata i gau eu ffwrneisi chwyth a newid at gynhyrchiant arc trydan. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb hefyd yng nghyfeiriad cyffredinol y diwydiant a'r rôl y gall ei chwarae mewn economi werdd yn y dyfodol.

Fel un sydd â rôl amlwg yn sector dur Cymru a busnes sydd eisoes yn gweithredu ffwrnais arc drydan (EAF), byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr mewn clywed eich barn ar ddyfodol dur Cymru ac ar rai o'r materion yr ydym wedi'u trafod. Rwy'n rhagweld na fyddech yn awyddus i wneud sylwadau ar y sefyllfa yn Tata, ac ni fyddwn yn disgwyl ichi wneud hynny, fodd bynnag yn fwy cyffredinol a fyddech cystal â rhoi eich barn i ni ar y canlynol:

- Rydym wedi clywed bod y newid arfaethedig o wneud dur sylfaenol i wneud dur ffwrnais arc drydan yn golygu ei bod yn debygol y bydd cynnydd sylweddol yn y galw domestig am ddur sgrap y DU, y mae llawer ohono'n cael ei allforio ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi clywed galwadau eang am weithredu yn hyn o beth, yn enwedig o ran dur sgrap o'r ansawdd gorau. A oes unrhyw gamau rheoleiddiol neu gamau eraill y dylai Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU eu cymryd i gefnogi datblygiad diwydiant dur sgrap domestig a fyddai'n cefnogi cynnydd yng nghynhyrchiant dur ffwrnais arc y DU?

- A oes unrhyw feysydd eraill lle credwch y dylai Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru weithredu i gefnogi datblygiad y diwydiant dur yng Nghymru yn y dyfodol?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Andy Regan
Rheolwr Cenhadaeth, Cenhadaeth Dyfodol Cynaliadwy
Nesta

31 Mai 2024

Annwyl Andy

**Dilyniant i sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 22 Mai**

Diolch am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i'r Economi Werdd ar 22 Mai. Roedd yn sesiwn ddiddorol ac roedd yr Aelodau'n ei hystyried yn sesiwn ddefnyddiol iawn. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau amser ni allodd yr Aelodau ofyn yr holl gwestiynau yr oeddent yn dymuno eu gofyn yn ystod y cyfarfod. Rwyf wedi cynnwys y cwestiynau na wnaethom eu cyrraedd isod.

- Mae'r Prif Weinidog newydd wedi addo rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r economi werdd yn ei faniffesto. Beth ddylai ei brif flaenoriaethau buddsoddi fod i ddechrau'r gwaith hwn, a pham?

- Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol sylweddol yn y tymor byr. A oes unrhyw ddulliau arloesol y credwch y dylai edrych arnynt i helpu i ariannu buddsoddiad yn ei blaenoriaethau?

Os yn bosibl, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau hyn inni erbyn 6 Mehefin, gan y byddai hyn yn caniatáu inni gyhoeddi eich ymatebion yn y papurau ar gyfer ein cyfarfod nesaf.

Diolch eto am roi o'ch amser ac am eich cymorth gyda'r ymchwiliad hwn.

Cofion cynnes,

Paul Davies

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Kate McGavin
Prif Swyddog Polisi a Strategaeth
Banc Seilwaith y Du

31 Mai 2024

Annwyl Kate

**Dilyniant i sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar 22 Mai**

Diolch am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i'r Economi Werdd ar 22 Mai. Roedd yn sesiwn ddiddorol ac roedd yr Aelodau'n ei hystyried yn sesiwn ddefnyddiol iawn. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau amser ni allodd yr Aelodau ofyn yr holl gwestiynau yr oeddent yn dymuno eu gofyn yn ystod y cyfarfod. Rwyf wedi cynnwys y cwestiynau na wnaethom eu cyrraedd isod. Rwyf hefyd wedi cynnwys cwestiwn dilynol ar brosiect partneriaeth ynni Bristol City Leap y soniasoch amdano yn eich tystiolaeth.

- Mae'r Prif Weinidog newydd wedi addo rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r economi werdd yn ei faniffesto. Beth ddylai ei brif flaenoriaethau buddsoddi fod i ddechrau'r gwaith hwn, a pham?

- Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol sylweddol yn y tymor byr. A oes unrhyw ddulliau arloesol y credwch y dylai edrych arnynt i helpu i ariannu buddsoddiad yn ei blaenoriaethau?

- A allwch chi roi rhagor o fanylion i ni am y bartneriaeth ynni preifat-cyhoeddus Bristol City Leap y dywedasoch eich bod wedi cynghori arni yn eich tystiolaeth.

Os yn bosibl, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau hyn inni erbyn 6 Mehefin, gan y byddai hyn yn caniatáu inni gyhoeddi eich ymatebion yn y papurau ar gyfer ein cyfarfod nesaf.

Diolch eto am roi o'ch amser ac am eich cymorth gyda'r ymchwiliad hwn.

Cofion cynnes,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**UK INFRASTRUCTURE BANK**

Paul Davies
Chair: Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Senedd Cymru

UK Infrastructure Bank Limited
One Embankment
Neville Street
Leeds
LS1 4DW

6th June 2024

Dear Paul,

Thank you for asking UKIB to attend the Green Economy inquiry on 22 May. It was great to hear the questions from members and see the interest in the Bank, and I hope you found my input useful.

In answer to the further questions please see below:

1) *The new First Minister of Wales has pledged to prioritise supporting the green economy in his manifesto. What should be his top investment priorities to start this work off, and why?*

As an Arm's Length Body, we are here to execute government policy rather than make it, so we wouldn't tend to recommend investment priorities. However, as I said in my evidence, governments can play a vital role in setting clear, stable and specific strategic direction that organisations like UKIB can then help execute against and crowd in private finance to support.

2) *The Welsh Government says it will face considerable budgetary constraints over the short-term. Are there any innovative approaches you think it should explore to help finance investment in its priorities?*

UKIB operates across the UK, and we are currently mobilising private finance at a ratio of about 1:3 so we play an important role in helping governments meet their investment objectives. We are very happy to work closely with the Welsh Government to think through how to design policy in any of the areas of infrastructure that sit within our mandate in a way that unlocks investment at pace.

3) *Please can you give us some more details on the Bristol City Leap private-public energy partnership that you said you had advised on in your evidence.*

The Bristol City Leap Energy Partnership is a Joint Venture (JV) between Bristol City Council and Ameresco that will enable the delivery of over £1 billion of investment in low carbon energy infrastructure. The JV can propose or respond to Council requested projects, develop associated business cases, and then deliver projects. As one of our pilot Local Authority Advisory projects, UKIB seconded one of our sector experts to support the City Leap project. Our role focused on assessing risk allocation, the deliverability of commercial models and supporting the development of concession agreements. By deploying our commercial and financial expertise, we helped the Council develop its thinking and governance arrangements to maximise the impact and benefit of the

UK Infrastructure Bank Limited is an infrastructure bank wholly owned by HM Government. It is not a banking institution and does not operate as such, it is therefore not authorised or regulated by the Prudential Regulation Authority or the Financial Conduct Authority. UK Infrastructure Bank Limited is a private limited company registered in England and Wales with registration number 06816271 and registered office at One Embankment, Neville Street, Leeds, LS1 4DW, United Kingdom.

partnership between the public and private sector. This is an example of the kind of no cost, impartial advice that UKIB can provide to local authorities who are considering or implementing complex partnership arrangements with the private sector. We can ensure the commercial, financial and governance arrangements for infrastructure projects is fit for purpose to maximise their impact and value for money.

I hope this answers the questions, but if there are any further queries, please do not hesitate to get in touch. Beyond that, if you believe the Bank can play a role in helping to address a specific problem in the priority sectors I outlined, please do bring it to our attention.

All the best

Kate McGavin
Chief Policy and Strategy Officer
UK Infrastructure Bank

UK Infrastructure Bank Limited is an infrastructure bank wholly owned by HM Government. It is not a banking institution and does not operate as such, it is therefore not authorised or regulated by the Prudential Regulation Authority or the Financial Conduct Authority. UK Infrastructure Bank Limited is a private limited company registered in England and Wales with registration number 06816271 and registered office at One Embankment, Neville Street, Leeds, LS1 4DW, United Kingdom.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: HID/PO/0152/24

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Mehefin 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr ar 22 Mawrth ynghylch y problemau parhaus yn Hybu Cig Cymru (HCC).

Rwyf wedi gweld gohebiaeth gynharach rhwng y Pwyllgor a'r Gweinidog blaenorol. Rwy'n cydnabod y pryderon a godwyd gennych a'ch diddordeb parhaus a diolch am ysgrifennu eto ar y mater hwn.

Fel y nodwch, ni fyddai'n briodol i Weinidog wneud sylwadau ar broblemau Adnoddau Dynol parhaus yn HCC. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn parhau i fod mewn cysylltiad â HCC ac os oes mwy y gallaf ei ddweud, unwaith y bydd y broses wedi dod i ben, yna byddaf yn bendant yn ysgrifennu eto ar y pwynt hwnnw.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Papur tystiolaeth i Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at ddiben craffu cyffredinol ac ar gyfer sesiwn ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ym Mhwyllgor ETRA

13/06/2024

Gwybodaeth a ddarparwyd i helpu'r Pwyllgor cyn i'r Gweinidog fod yn bresennol ar gyfer Gwaith Craffu Cyffredinol ar 13 Mehefin.

# Cynnwys

**1. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)........................................................3**

**2.Lles Anifeiliaid ..................................................................................5**

**3.TB Gwartheg ......................................................................................7**

**4. Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ....................................10**

**5.Bwyd......................................................................................................12**

**6.Cynllun Cynefin Cymru ...................................................................14**

**7.Y Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG)' ..............................................16**

# 1. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)

1. Ar 14 Mai, cyhoeddais y byddai Cyfnod Paratoi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn 2025 ac y byddai'r cyfnod Pontio i'r SFS yn dechrau yn 2026.

2. Rydym am fod yn ddoeth yn ein defnydd o'r cyfnod paratoi hwn. Mae'n gyfle i ddangos manteision Gweithredoedd y Cynllun. Bydd yn ein helpu hefyd i'w gwneud mor hawdd â phosibl i bobl ymuno â'r cynllun a sicrhau ei fod yn dod â'r manteision mwyaf i ffermwyr Cymru.

3. Bydd yr amserlen newydd hon yn rhoi'r amser i ni gael y sgyrsiau a'r trafodaethau y bydd angen i ni eu cael gydag aelodau'r Ford Gron Gweinidogion. Dwi'n bwriadu gweithio'n gyflym i nodi'r meysydd y gallwn gytuno arnyn nhw er mwyn gallu canolbwyntio wedyn ar y materion sydd angen mwy o sylw.

4. Mae'r gweithredoedd sy'n ymwneud â dal a storio carbon yn y Cynllun yn un maes y byddwn yn ei ystyried ymhellach. Bydda' i'n disgwyl i'r grŵp o bartneriaid sy'n gwneud y gwaith hwn gyda ni ganolbwyntio ar y dystiolaeth y mae'r gweithredoedd yn seiliedig arnyn nhw i'n helpu i ddal a storio rhagor o garbon ac i ystyried maint y cyfle sydd yma yng Nghymru.

5. Byddwn hefyd yn defnyddio'r amser hwn i gadarnhau data a fydd, gydag adborth ffermwyr, yn rhoi darlun cywir o'r cynefinoedd a'r gorchudd coed ar bob fferm. Dan Gynllun Cynefin Cymru, gwelsom gynnydd yn arwynebedd y tir cynefin sy'n cael ei reoli eleni. Dwi am adeiladu ar y llwyddiant hwn ac felly'n ystyried rhoi cyfle i fwy o ffermwyr geisio am gymorth yn 2025.

6. Yn ystod y Cyfnod Paratoi, byddwn yn gweithio hefyd gyda rhanddeiliaid i greu a datblygu cynigion ar gyfer rhagor o Weithredoedd Opsiynol a Chydweithredol, a'r nod fydd eu cyflwyno cyn gynted â phosibl.

7. Rydym dal ati'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw benderfyniadau ar y cynllun tan y byddwn wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r adborth sydd wedi cyrraedd y bydd angen gwneud rhai newidiadau i'r cynnig. Byddaf yn cyhoeddi'r dadansoddiad o'r ymgynghori ac ymateb y Llywodraeth iddo ym mis Mehefin.

8. Nid yw cyflwyno'r Cynllun yn 2026, ar ôl y cyfnod Paratoi, yn golygu gwanhau'r ymrwymiadau i'r hinsawdd nag i natur. Ond mae heriau i'w datrys cyn y gall ffermwyr deimlo'n hyderus yn y cynllun. Ni ddaw unrhyw fudd o gyflwyno cynllun yn rhy fuan os na fydd ffermwyr am ymuno ag e.

9. Er mwyn gwneud y pontio'n haws i ffermwyr, roeddem eisoes wedi cynnig cyflwyno'r Cynllun yn raddol trwy ganolbwyntio ar y Gweithredoedd Cyffredinol i ddechrau. Mae'r cam paratoi hwn yn gam ychwanegol er mwyn hwyluso'r pontio hwnnw.

10. Yr un yw'n huchelgais o hyd ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sef cefnogi diwydiant amaethyddol cynaliadwy a chynhyrchiol yng Nghymru. Bydd angen i'r cynllun cymorth i ffermwyr yn y dyfodol esgor ar lawer o ganlyniadau i Gymru gyfan, ond rhaid i ffermwyr fod yn ganolog iddo.

11. Cynhyrchu bwyd a chynnal y safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid fydd sylfaen y cymorth hwnnw, ynghyd â gwella perfformiad amgylcheddol, ymateb i argyfwng yr hinsawdd a gwella bioamrywiaeth ffermydd. Allwn ni ddim gwneud hyn ar ein pen ein hunain. Dw i wedi addo parhau i wrando ar ffermwyr, yn ogystal â'r holl randdeiliaid, a gweithio gyda nhw i ddatblygu Cynllun a fydd yn helpu i wireddu'n huchelgais i wneud Cymru'n arweinydd byd ym maes ffermio cynaliadwy.

# 2.Lles Anifeiliaid

1. **Cynllun Lles Anifeiliaid.** Rydym wrthi'n bwrw ymlaen â'n Cynllun Lles Anifeiliaid 5 mlynedd uchelgeisiol, sy'n cynnwys ymrwymiadau o'r Rhaglen Lywodraethu. Bydd y Cynllun yn sicrhau gwelliannau go iawn a pharhaol i fywydau anifeiliaid fferm ac anwes ac anifeiliaid eraill a gedwir ac mae'n cynnwys amserlen ar gyfer gwneud hynny. Cyhoeddwyd ein hadolygiad diweddaraf o'r cynllun yn gynharach eleni.

2. Cafodd **Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024** eu cymeradwyo gan Senedd Cymru ar 21 Mai. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol gosod camerâu CCTV ym mhob lladd-dy lle mae  anifeiliaid yn cael eu dadlwytho, eu cadw, eu trin, eu stynio a'u lladd. Dyma un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Daeth y gofyn i osod a gweithredu system CCTV a chadw recordiadau a gwybodaeth CCTV i rym ar 1 Mehefin. Daw'r troseddau a'r pwerau i archwilio, atafaelu a gorfodi'r Rheoliadau i rym ar 1 Rhagfyr. Mae hyn yn rhoi cyfnod o chwe mis pan fydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn helpu lladd-dai i gydymffurfio â'r rheoliadau, cyn iddynt gael eu gorfodi.

3. Cafodd **Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024** Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mai. Mae'r Ddeddf hon gan Lywodraeth y DU yn gwahardd allforio gwartheg, defaid, geifr, moch a cheffylau byw o Brydain i'w lladd a'u pesgi. Gwnaethoch Reoliadau Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 (Cychwyn) (Cymru) 2024 ar 22 Mai. Sgrifennoch chi ar 21 Mai i roi gwybod i Bwyllgor ETRA am eich bwriad i roi'ch cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024.

4. Mae'r Rheoliadau'n creu pwerau gorfodi, troseddau a chosbau sy'n ymwneud â gwahardd allforio anifeiliaid byw. Disgwyliwyd gosod y Rheoliadau gerbron Senedd y DU, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ar 5 Mehefin. Mae'r dyddiad gosod hwnnw bellach yn ansicr.

5. **Bod yn Bridiwr Cŵn ac yn Berchennog Cyfrifol**. Mae swyddogion yn y tîm Lles Anifeiliaid yn parhau i weithio'n agos gyda mudiadau'r trydydd sector, heddluoedd ac Awdurdodau Lleol a'r rhai sy'n ymgyrchu dros les cŵn a diogelwch y cyhoedd, i annog pobl i fod yn berchenogion a bridwyr cŵn cyfrifol yng Nghymru.

6. Yn dilyn uwchgynhadledd ym mis Hydref 2023, mae Llywodraeth Cymru am gynnal cyfres o ddigwyddiadau a gweithdai gydol 2024 i ddatblygu a chyflwyno strategaeth ar gyfer ei hyrwyddo ac i gynnal momentwm trwy gydweithio ac ymgysylltu.

7. **Rheoleiddio lles anifeiliaid.** Daeth ein hymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd lles anifeiliaid i ben ym

mis Mawrth. Gyda thros 1,100 o ymatebion wedi dod i law, mae swyddogion wrthi'n dadansoddi'r dystiolaeth a bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Bydd ein prosiectau trwyddedu a gorfodi yn golygu newid sylweddol i safleoedd bridio cŵn Cymru. Mae'r Prosiect Trwyddedu Anifeiliaid Cymru gyda chyllid Llywodraeth Cymru wedi darparu hyfforddiant i 63 o swyddogion ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol.

8. Rasio milgwn Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad yw lles milgwn rasio yng Nghymru yn dioddef. Gwnaeth ein hymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd lles anifeiliaid godi ystod o ystyriaethau, gan gynnwys rasio milgwn, a gofynnwyd am dystiolaeth ar fanteision ac effeithiau deddfu a gwahardd rasio milgwn yng Nghymru. Gyda dadansoddiad ar y gweill ar hyn o bryd, ni fyddem am ragweld ei ganlyniadau na nodi ein camau nesaf ar hyn o bryd.

9. Y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio). Bil Cyflwyno oedd hwn a chafodd ei roi gerbron gan gyn-Ysgrifennydd Gwladol y DU, Therese Coffey. Cafodd ei ail ddarlleniad ar 6 Chwefror gan basio trwy'r pwyllgor ar 24 Ebrill. Fe wnaethoch osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil gerbron Senedd Cymru ar 8 Mai. Anfonodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm i'r Pwyllgorau ETRA a LJC gan ofyn am adroddiad erbyn 5 Gorffennaf. Gwaetha'r modd, yn sgil cyhoeddi Etholiad Cyffredinol i'w gynnal ar 04 Gorffennaf, mae'r Bil wedi cwympo.

10. Bil Lles Anifeiliaid (Mewnforio Cŵn, Cathod a Ffuredau). Bil Aelod Preifat oedd hwn, gan Selaine Saxby AS. Cafodd ei ail ddarlleniad ar 15 Mawrth 2024 ac roedd y Swyddogion yn aros am gadarnhad o ddyddiad y cam pwyllgor gydag ymrwymiad i ymuno â Llywodraeth y DU ar y Bil hwn. Gwaetha'r modd, yn sgil cyhoeddi Etholiad Cyffredinol i'w gynnal ar 04 Gorffennaf, mae'r Bil wedi cwympo.

# 3.TB Gwartheg

## Y Grŵp Cynghori Technegol (TAG) a Bwrdd y Rhaglen

1. Penodwyd aelodau Grŵp Cynghori Technegol (TAG) y Rhaglen Dileu TB Gwartheg drwy broses penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a'u cyhoeddi mewn Datganiad Ysgrifenedig ddydd Llun 15 Ebrill.

2. Bydd y TAG yn chwarae rhan bwysig iawn wrth ddatblygu cyngor a llunio ein polisi ar TB. Mae'n grŵp o arbenigwyr annibynnol fydd yn dod â llawer iawn o arbenigedd, gwybodaeth a phrofiad i'n cynghori ar gyfleoedd a heriau dileu TB yng Nghymru a sut i wneud hynny. Mae gan aelodau hefyd gysylltiadau agos â ffermwyr a'r diwydiant ffermio sy'n allweddol i'n ffordd gydweithiol o weithio.

3. Bydd y TAG yn cyfarfod bob tri mis ac yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru drwy Fwrdd y Rhaglen TB fydd yn cael ei greu cyn hir. Yn y cyfamser, tan hynny, bydd eu cyngor yn cael ei roi i mi drwy'r Prif Swyddog Milfeddygol, Richard Irvine. Mae aelodau Bwrdd y Rhaglen TB wrthi'n cael eu penodi drwy broses penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

4. Bydd aelodau *ex officio* fydd yn cael eu penodi'n uniongyrchol, yn cynrychioli'r undebau ffermio ac eraill i sicrhau llais cryf i'r diwydiant ar Fwrdd y Rhaglen unwaith y caiff ei sefydlu.

5. Cynhaliodd TAG ei gyfarfod cyntaf ar 17 Ebrill. Cytunodd y Grŵp ar ei gylch gorchwyl ac ystyriodd ei flaenoriaeth gyntaf, sef mater difa gwartheg ar y fferm sydd wedi cael adwaith i brawf.

## Lladd ar y Fferm

6. Rydym wedi gweld y trallod y mae TB yn ei achosi i deuluoedd a busnesau ffermio. Ambell waith, does dim dewis ond lladd yr anifail ar y fferm os nad oes modd ei gludo i ladd-dy neu os nad yw'n ffit i'w fwyta. Mae cael gwared ar anifeiliaid sydd wedi'u heintio â TB o'r fferm cyn gynted â phosibl yn rhan allweddol o'n Rhaglen Dileu TB er mwyn rhwystro'r clefyd rhag lledaenu ymhellach.

7. Cafodd y TAG ei gyfarfod cyntaf ddydd Mercher 17 Ebrill ac fel ei flaenoriaeth gyntaf, trafodwyd lladd adweithyddion TB ar y fferm.

8. Cyflwynwyd ei adroddiad ar ladd anifeiliaid ar y fferm i'r Prif Swyddog Milfeddygol ac Ysgrifennydd y Cabinet a gwnaeth y ddau dderbyn holl gyngor TAG. Roedd y cyngor yn ymdrin â'r nod o leihau nifer y gwartheg dros amser y bydd yn rhaid eu lladd ar y fferm i reoli TB yng Nghymru.

9. Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad Grŵp Cynghori Technegol TB Buchol o Bolisi Presennol Lladd Anifeiliaid sydd wedi Adweithio i'r Prawf TB ar y Fferm (16 Mai 2024) | LLYW.CYMRU. Mae swyddogion yn parhau i weithio ar fyrder gydag APHA i roi'r newidiadau i bolisi lladd ar y fferm ar waith.

10. Bydd ffermwyr yn cael gohirio symud buwch neu dreisiad (heffer) yn ei 60 diwrnod olaf o feichiogrwydd ac anifeiliaid sydd wedi geni llo yn y 7 diwrnod diwethaf, cyn belled â'u bod yn cymryd mesurau bioddiogelwch i amddiffyn gwartheg eraill y fuches. Yn yr un modd, bydd rhywfaint o hyblygrwydd i ynysu a gohirio'r symudiad os ydy'r cyfnod 'cadw meddyginiaeth o'r gadwyn fwyd' ar fin dod i ben ymhen ychydig ddyddiau, ond ystyrir pob achos yn ôl ei rinweddau.

## Prosiect Sir Benfro

11. Mae sampl fach o filfeddygon a ffermwyr Sir Benfro wedi'u cofrestru ar gyfer y prosiect, fydd yn rhoi'r gallu iddyn nhw wneud penderfyniadau gwybodus a dangos arweiniad wrth reoli clefydau.

12. Prif elfen y prosiect fydd pennu'r risg sydd ynghlwm wrth glefyd gweddillol ymhlith gwartheg sydd wedi cael prawf clir. Bydd hefyd yn datblygu llwybr ar gyfer lleihau'r risg o drosglwyddo'r clefyd o fuwch i fuwch. Mae ffermwyr a milfeddygon yn cydweithio i adnabod a difa anifeiliaid risg uchel ar gyngor milfeddygol mewn ffordd sy'n gynaliadwy i fusnes y fferm, gan gynnal yr un pryd fesurau bioddiogelwch sy'n benodol i'r fferm.

13. Erbyn mis Mawrth 2024, roedd yr uchafswm o 15 o ffermwyr sy'n cael ymuno â'r prosiect wedi gwneud, ac yn ennyn diddordeb ffermwyr eraill. Mae adroddiadau cychwynnol gan dîm y prosiect a'r ffermwyr a'r milfeddygon sydd wedi cofrestru yn y prosiect yn addawol.

14. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ymweld ag un o ffermydd y prosiect yn ddiweddar i ddysgu mwy am y gwaith ac i glywed am ei phrofiadau.

## Ystadegau

15. Er bod ystadegau o bob rhan o Gymru yn dangos bod camau positif yn cael eu cymryd o ran delio â TB, gyda achosion newydd mewn buchesi yn gostwng dros y tymor hir, rydym yn cydnabod bod y sefyllfa'n wahanol o ranbarth i ranbarth. Dyna pam ein bod yn targedu'n gwaith.

16. Dangosodd astudiaeth ystadegol a gyhoeddwyd y llynedd mewn ardaloedd BCP (polisi rheoli moch daear) yn Lloegr y bu gostyngiad o 56% yn nifer y buchesi ag achosion newydd o TB dros bedair blynedd o ddifa, hynny oherwydd difa moch daear a mesurau ychwanegol ar gyfer rheoli

gwartheg. Er gwaethaf yr ystadegau hyn, mae'r astudiaeth yn cydnabod ei bod yn anodd ynysu effeithiau difa moch daear oddi wrth effeithiau mesurau rheoli eraill.

17. Mae Cymru wedi gweld gostyngiad tebyg i Loegr yn nifer yr achosion o TB dros y cyfnod 2012-2023, hynny heb ddifa moch daear a thrwy ddibynnu ar fesurau rheoli gwartheg a brechu moch daear mewn ardaloedd targed. Mae astudiaethau'n dangos bod gwartheg lawer fwy tebygol o gael eu heintio gan wartheg a bod moch daear yn fwy tebygol o gael eu heintio gan foch daear nag yw gwartheg o gael eu heintio gan foch daear a moch daear o gael eu heintio gan wartheg. Mae hynny'n profi mai'r risg mwyaf i wartheg yw gwartheg eraill.

# 4. Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol

Cyflwyniad

1. Mae llygredd amaethyddol yn parhau i effeithio ar yr amgylchedd ym mhob rhan o Gymru. Mae'n niweidiol i iechyd pobl ac i fioamrywiaeth. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau CoAP") a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021, yn seiliedig ar argymhellion arfer da sydd wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer atal llygredd amaethyddol. Mae'r Rheoliadau CoAP yn cynnwys darpariaethau pontio i roi amser i ffermydd fabwysiadu'r gofynion newydd. Bydd y Rheoliadau CoAP yn cael eu gweithredu'n llawn erbyn 1 Ionawr 2025.

Diben y Rheoliadau

2. Mae'r Rheoliadau CoAP wedi'u creu i fynd i'r afael â tharddiad llygredd amaethyddol yng Nghymru, gan gyfrannu at wireddu nifer o rwymedigaethau rhyngwladol a domestig. Maent yn cefnogi ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Phrotocol Götenborg. Byddant yn cyfrannu at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac amcanion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

3. Mae'r Rheoliadau CoAP yn cydnabod bod gan amgylchedd y byd ei derfynau drwy hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau a thrwy ddiogelu ein hiechyd a'n hamgylchedd naturiol drwy ecosystemau iach a byw sy'n cefnogi cydnerthedd ecolegol. Byddant yn helpu ffermydd i leihau allyriadau niweidiol a gwella'r ffordd y rheolir ein hadnoddau naturiol. Byddant yn helpu ffermydd i fynd i'r afael â'r difrod sydd wedi'i wneud i'n hadnoddau naturiol a nodwyd yn Adroddiad Cyflwr Ein Hadnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru 2020 gan gynnwys lleihau effeithiau negyddol amaethyddiaeth ar fioamrywiaeth.

Llygredd Amaethyddol yng Nghymru

4. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cofnodi nifer y digwyddiadau llygru amaethyddol y gellir eu profi sy'n digwydd yng Nghymru. Yn 2023, cafodd 151 o achosion o lygredd amaethyddol eu profi. Ar gyfartaledd, mae 156 o ddigwyddiadau llygru wedi digwydd yn sgil gweithgarwch amaethyddol bob blwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf, a'r cyfartaledd dros y 5 mlynedd diwethaf yw 157.

5. Mae CNC wrthi'n adolygu statws cyrff dŵr Cymru. Mae'r data diweddaraf o 2021 yn cadarnhau mai amaethyddiaeth sy'n gyfrifol nad oes gan 140 o gyrff dŵr yng Nghymru statws da, bod 232 o rai eraill heb statws da fwy na thebyg oherwydd amaethyddiaeth a bod amheuaeth bod 118 arall heb

gael statws da oherwydd amaethyddiaeth. Mae hyn awgrymu mai prif achos methiant yw amaethyddiaeth.

6. Mae naw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ar lannau afonydd yng Nghymru – Cleddau, Eden, Gwyrfai, Teifi, Tywi, Glaslyn, Dyfrdwy, Wysg a Gwy. Mae'r afonydd hyn yn gartref i rai o fywyd gwyllt mwyaf arbennig Cymru, gan gynnwys eogiaid, misglod perlog yr afon, cimychiaid afon crafanc wen a llyriad-y-dŵr arnofiol. Mae asesiad CNC o'r afonydd hyn wedi nodi bod yr amodau o ran ffosfforws yn cael eu torri'n aml, gyda'r ffosfforws yn uwch na'r trothwyon ar dros 60% o'r afonydd hyn.

7. Er bod y sefyllfa'n wahanol o ddalgylch i ddalgylch, daw'r rhan fwyaf o'r ffosfforws o'r sector defnydd tir gwledig. Defnydd tir gwledig yw prif gyfrannwr ffosffadau mewn 6 o'r 9 afon ACA ac ym 4 o'r 5 afon ACA sy'n methu, ac mae'n gyfrifol am 62% o'r llwyth ffosfforws ym mhob afon ACA.

8. Mae Llywodraeth Cymru ac CNC wedi sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth i gyflwyno'r Rheoliadau CoAP, a fydd yn cryfhau gallu CNC i atal llygredd a gweithredu lle bo angen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau CoAP ac atal llygredd.

Adolygiad 4 blynedd

9. O leiaf bob pedair blynedd, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd y mesurau sydd wedi'u gosod gan y Rheoliadau hyn o ran lleihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol ac os gwelir bod angen, byddan nhw'n cael eu newid. Rhaid i'r adolygiad ystyried y data gwyddonol a thechnegol sydd ar gael ac amodau amgylcheddol rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i benodi cadeirydd allanol annibynnol i oruchwylio'r adolygiad a chaiff cyhoeddiad ei wneud ynghylch hynny cyn gynted ag y medrir.

10. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau paratoi ar gyfer yr adolygiad 4 blynedd a gynhelir cyn mis Ebrill 2025, ac wedi dechrau trafod â rhanddeiliaid am elfennau'r adolygiad sy'n ofynnol gan y Rheoliadau neu y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt. Bydd hyn yn sicrhau yr aiff yr adolygiad ragddo yn y cyfamser, heb effeithio ar allu'r cadeirydd i wneud ei waith pan gaiff ei benodi. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys trafod â rhanddeiliaid am y cynigion ar gyfer mesurau amgen a gyflwynwyd o dan Reoliad 45 o Reoliadau CoAP a chyda Cyfoeth Naturiol Cymru am y dystiolaeth wyddonol a thechnegol i gefnogi'r adolygiad.

# 5.Bwyd

1. O ran bwyd, dwi am ganolbwyntio ar gydgysylltu a chydlynu. Hynny am y bydd llwyddiant yn dibynnu ar gydweithio. Rydym eisoes yn gweld meysydd lle mae'r pwyslais ar gydweithio ar gynnydd. Cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ei strategaeth saith mlynedd ar gyfer 2023-2030, Cymru Can. Ei nod yw ysgogi newid cadarnhaol gyda sylw penodol ar fwyd. Bydd y Comisiynydd yn ceisio gwella a monitro cyfraniad ein gwasanaethau cyhoeddus i'r system fwyd. Rydym wedi gweithio a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a dwi am weld mwy o gydweithio rhwng arbenigeddau, gyda phartïon amrywiol sydd â diddordeb yn ymuno â'i gilydd i herio, dylanwadu a gwella'r system fwyd a chyflenwadau bwyd yng Nghymru.

2. Byddaf yn cyhoeddi *Bwyd o Bwys: Cymru* cyn bo hir. Bydd hwn yn crynhoi ac yn dwyn ynghyd yr holl brif bolisïau a gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd sy'n digwydd ar draws y llywodraeth. Roedd fy rhagflaenydd, Gweinidog Gogledd Cymru a Materion Gwledig a'r Trefnydd yn deall pwysigrwydd y cysylltiadau hyn ar draws y llywodraeth, a sefydlodd Fforwm Bwyd traws-bortffolio, yn cynnwys swyddogion allweddol o holl adrannau Llywodraeth Cymru. Dylid datblygu a chyflwyno pob polisi sy'n gysylltiedig â bwyd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio.

3. Mae ein Strategaeth Bwyd Cymunedol (CFS) yn parhau i ddatblygu, a'r gobaith yw gwireddu'r ymrwymiad hwn o'r Rhaglen Lywodraethu erbyn diwedd 2024. Er mwyn datblygu'r strategaeth, rydym wedi cynnal ymchwil helaeth gan gynnwys arolygon o'r rhanddeiliaid bwyd cyhoeddus a chymunedol, cyfarfodydd â rhanddeiliaid, ymweliadau safle, mapio systemau a grwpiau ffocws Mae'r ymchwil wedi ein helpu i gyd-gynllunio'r strategaeth newydd. Mae gwybodaeth am ddatblygiad y CFS ar gael ar wefan Bwyd a Diod Cymru, gan gynnwys canlyniadau'r arolygon, er gwybodaeth y rhanddeiliaid. Diben y strategaeth fydd ysgogi a chefnogi mentrau bwyd ar lawr gwlad i gynnal a manteisio ar yr egni a'r brwdfrydedd sy'n amlwg yn bodoli ledled Cymru yn ein cymunedau. Dw i am harneisio'r brwdfrydedd hwn a gweithio gyda rhanddeiliaid, ar draws y Llywodraeth, y Senedd a'r holl sefydliadau ac unigolion perthnasol i gryfhau'r dystiolaeth ynghylch y llwybrau mwyaf effeithiol ac effeithlon i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd o ffynonellau lleol yng Nghymru. Edrychir hefyd ar y camau y gallwn eu cymryd er lles diogelu cyflenwadau bwyd yng Nghymru.

4. Bu llawer o sylw yn ddiweddar ar ddiogelu cyflenwadau bwyd a chydnerthedd y system. Mae'r rhain yn bynciau cymhleth a manwl na ellir eu hystyried o safbwynt Cymru yn unig. Mae cadwyni cyflenwi bwyd wedi'u hintegreiddio ledled y DU bellach ac â masnach ryngwladol sylweddol. Mae'n hanfodol deall y risgiau a magu gwytnwch i'w gwrthsefyll lle bo

hynny'n ymarferol yng Nghymru, a chredaf fod ffocws ar wella trefniant ac arweiniad gweithgarwch llawr gwlad, a rhoi mwy o bwyslais ar fwyd yng nghynlluniau llesiant cyrff cyhoeddus, yn bolisïau pragmatig y gallwn eu dilyn.

# 6.Cynllun Cynefin Cymru

1. Cynllun amaeth-amgylcheddol ar gyfer Cymru gyfan yw Cynllun Cynefin Cymru sy'n darparu cymorth ar gyfer rheoli tir cynefin. Cafodd ei gyflwyno i gynnig cymorth i ffermwyr a rheolwyr tir allu cynnal gweithgareddau rheoli cynefinoedd, a phontio'r cyfnod rhwng cau hen gontractau cynlluniau Glastir ar 31 Rhagfyr 2023 a ariannwyd gan yr UE a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y mae ei gynigion yn cynnwys cymorth i gynnal gweithgareddau tebyg.

2. Un o brif amcanion y cynllun oedd sicrhau bod gan bob ffermwr cymwys yng Nghymru gyfle i wneud cais am gymorth i ddiogelu tir cynefin a chyfrannu at ein hymrwymiadau o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth. Y cyfle olaf i ffermwyr Cymru wneud cais am gynllun o'r fath oedd yn 2017.

3. Yn ogystal â chynnal y cynefinoedd oedd cynt yn cael eu rheoli o dan gontractau Glastir, roeddem am gynnwys darnau ychwanegol o gynefinoedd lled-naturiol ar gyfer eu rheoli.

4. Agorwyd y cyfnod Datgan Diddordeb yn y cynllun rhwng 29 Medi 2023 a 10 Tachwedd 2023.

5. Daeth 3,254 o Ddatganiadau i law.

6. Cafodd 3,166 o grantiau eu cynnig, a'r dyddiad cau i ymgeiswyr gadarnhau eu bod yn derbyn y cynnig grant oedd 18 Mawrth.

7. Dyma grynodeb o'r prif ganlyniadau yn y tabl isod:

| | | |
|---|---|---|
| 1. Cyfanswm Grantiau HWS gafodd eu derbyn | | 2. **2244** |
| 3. 4. O'r rheini: | 5. Yn Glastir Uwch yn 2023 | 6. 1286 |
| | 7. Ddim yn Glastir Uwch yn 2023 | 8. 804 |
| | 9. Tir Comin | 10. 154 |
| 11. Cyfanswm arwynebedd cynefin (ha) | | 12. **341,794** |
| 13. 14. O'r rheini: | 15. Yn Glastir Uwch yn 2023 (ha) | 16. 202,822 |
| | 17. Ddim yn Glastir Uwch yn 2023 (ha) | 18. 30,479 |
| | 19. Tir Comin (ha) | 20. 108,493 |
| 21. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | | 22. 358 |

| | |
|---|---|
| 23. Cyfanswm Arwynebedd SoDdGAau (ha)* | 24. **76,140** |

* Mae'r holl ffigurau ar gyfer SoDdGAoedd wedi'u cynnwys yn y gwerthoedd uchod.

8. Mae nifer y contractau sydd wedi'u rhoi o dan Gynllun Cynefin Cymru (HWS) ychydig yn uwch na'r nifer gafodd eu rhoi a'u derbyn yn 2023 o dan y cynllun Glastir. O fewn y cyfanswm hwn, mae HWS yn cefnogi 2,090 o fusnesau fferm unigol, o'i gymharu â'r 2,048 gafodd eu cefnogi o dan Glastir Uwch 2023.

9. Mae 94% o'r tir comin a arferai fod yn Glastir yn dal i gael ei reoli fel cynefin.

10. Mae cyfanswm arwynebedd y tir cynefin sy'n cael ei reoli (tir comin a ffermwyr unigol) wedi cynyddu o 326,220 ha i 341,794 ha.

11. Mae gwerth £16.11m o grantiau Cynllun Cynefin Cymru wedi'u dyfarnu ac mae'r ymgeiswyr yn hawlio'r grantiau hynny ar eu SAF 2024.

# 7.Y Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG)

1. Mae'r £846 miliwn a mwy o gyllid oedd ar gael drwy Raglen Datblygu Gwledig (RhDG) 2014-2020 Cymru, gyda thros £564 miliwn ohono o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd (UE), i gyd wedi'i wario. Mae hyn yn amodol ar y cyfrifon terfynol a gyflwynir ac unrhyw addasiadau dilynol gan y Comisiwn Ewropeaidd.

2. Yn ystod y rhaglen, cafodd cyllideb cynllun amgylcheddol Glastir o dros £409 miliwn ei neilltuo i ffermwyr, rheolwyr tir a choedwigwyr i ymateb i argyfyngau'r newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

3. Buddsoddwyd £45 miliwn i foderneiddio'r diwydiannau ffermio a choedwigaeth i fod yn fwy cydnerth a chystadleuol sy'n golygu bod y RhDG wedi creu neu ddiogelu dros 4,000 o swyddi.

4. Mae llawer iawn wedi'i wneud er gwaetha'r heriau digynsail y mae ffermwyr a chymunedau gwledig wedi gorfod eu hwynebu. Mae effeithiau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, pandemig Covid 19, y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw yn parhau i gael effaith sylweddol ar bobl a busnesau yng Nghymru hyd yn oed heddiw.

**Cynllun Buddsoddi Gwledig (RIS) 2022-2024**

5. Mewn ymateb i ddiwedd Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE (RhDG) ar 31 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru becyn cymorth gwerth dros £200m i gefnogi'r economi wledig a'n hamgylchedd naturiol dros gyfnod o dair blynedd. Nod yr arian yw cefnogi'r diwydiannau ffermio, coedwigaeth a bwyd i wynebu'r heriau amgylcheddol fel rhan o'r cyfnod pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.

**Cyllideb RIS – 2024/25**

6. Cyllideb wreiddiol RIS ar gyfer 2024/25 oedd £148m. Ond bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ailwampio ei chynlluniau gwario er mwyn gallu buddsoddi mwy yn y GIG a diogelu cyllid craidd llywodraeth leol ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol. Mae hyn wedi golygu y bu'n rhaid cwtogi ar gyllideb derfynol RIS i £97.64m.

7. O ganlyniad, mae'r portffolio Materion Gwledig yn canolbwyntio ar helpu i baratoi ffermwyr a'r gadwyn gyflenwi ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

8. Er gwaetha'r dewisiadau anodd y bu'n rhaid eu gwneud, sicrhaodd y cyn-Weinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd y canlynol:

    - Cadw cyllideb y BPS o £238m.
    - Cynnig contractau Cynllun Cynefin Cymru i bob ymgeisydd cymwys.

- Llunio cynllun organig ar gyfer 2024.
- Anrhydeddu'r ymrwymiadau a wnaed drwy gynlluniau gwledig (heblaw am ostyngiadau i Cyswllt Ffermio a'r Cynllun Arloesi Cynaliadwy).
- Amddiffyn y gyllideb iechyd a lles anifeiliaid.

**Cyllideb RIS - 2025/26**

9. Oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllideb Llywodraeth y DU, nid yw cyllideb RIS ar gyfer 2025/26 wedi'i chadarnhau eto.

10. Nid ydym yn gwybod faint o arian y byddwn yn ei gael gan Lywodraeth y DU i gyllido ffermwyr yn 2025/26. Rwy'n sylweddoli bod perygl wrth gyhoeddi'n bwriad i gyllido ymyriadau, ond rwy'n barod i gymryd y risg honno er mwyn argyhoeddi ffermwyr ein bod am barhau i gefnogi'r sector.

11. Ar hyn o bryd mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer gwahanol senarios i sicrhau y gallwn wneud y gorau o'r gyllideb a ddaw i gefnogi ein ffermwyr, eu teuluoedd, rheolwyr tir a choedwigwyr.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon